Trip

Cafodd y dosbarthiadau babanod gyfle i ymweld â Ffair Ffermio yng Nghwmwythig yn ddiweddar. Treuliwyd prynhawn addysgiadol a diddorol iawn gyda amrywiol weithgareddau wedi eu trefnu yn bwrpasol ar gyfer ymweliad ysgolion.

Chwaraeon

Colli i'r Celtiaid yn y ddwy rownd derfynol oedd ein hanes yn y Cwpan RAFA a Tharian y Waun. Gwell lwc y tro nesaf bois! Mae'r tri thîm pêl-droed wrthi yn paratoi ar gyfer y sialens nesaf fydd o'n blaenau!! Mae'r ddau dîm hoci wrthi hefyd yn ymarfer eu sgiliau.

Pob lwc i dîm merched pêl-rwyd yng nghystadleuaeth yr Urdd, cylch Aberystwyth cyn hanner tymor.

Trawsgwlad

Aeth 45 o blant i gynrychioli'r ysgol yn nhrawsgwlad y cylch yn ddiweddar. Rhedodd pawb yn dda gan ddod a chlod i'w hysgol. Bydd y plant a ddaeth yn y deg cyntaf yn cynrychioli'r ysgol yn ras trawsgwlad y sir yn nes ymlaen yn y flwyddyn, sef:

Blwyddyn 3 – Danielle Pryce; John James a Siân Evans
Blwyddyn 5 – Lydia Shaw; Sarah Fitzpatrick a Teleri Donalley
Blwyddyn 6 – Owain James, Christopher Evans; Ashley Stephens a Joshua Shaw.